2010 European Year for Combating Poverty and Social Exclusion

Mae Plant yng Nghymru yn falch o ddarparu llwyfan ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd 2010 dros Frwydro yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghynhadledd Flynyddol Bord Gron 2009 yng Nghasnewydd.

Dowch i ganfod pa swyddogaeth y gallwch **chi** ei chyflawni gyda datblygu a darparu datrysiadau i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol fel rhan o Flwyddyn Ewropeaidd 2010. Byddwch yn rhan o'r ymgyrch fydd yn nodi ac yn rhannu arferion da yn y maes hanfodol hwn er mwyn sicrhau etifeddiaeth barhaol am y flwyddyn.

Mae'r Flwyddyn Ewropeaidd yn anelu at:

- codi ymwybyddiaeth o achosion a chanlyniadau tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac o strategaethau a pholisïau'r Deyrnas Unedig ac Ewrop sy'n anelu at fynd i'r afael â'r materion hyn;
- atgyfnerthu ymrwymiad gwleidyddol a chyhoeddus i'r agenda hon, yn y Deyrnas Unedig a ledled yr Undeb Ewropeaidd fel ei gilydd, ac i bwysleisio cydgyfrifoldeb a chyfrifoldeb unigol fel ei gilydd yn y frwydr yn erbyn tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae Gweinidogion yn neilltuol o awyddus i glywed lleisiau pobl sy'n cael profiad o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, gan fod ganddynt swyddogaeth sylfaenol i chwarae o ran canfod datrysiadau i'r heriau cymhleth hyn.

Mae Plant yng Nghymru yn falch o gynnig nifer cyfyngedig o leoedd am ddim i alluogi'r lleisiau hyn i gael eu clywed. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Sarah Thomas am ragor o fanylion (Ffôn: 029 2034 2434; E-bost: sarah.thomas@plantyngnghymru.org.uk)
Fe ellir canfod mwy o wybodaeth ar wefan Blwyddyn Ewropeaidd 2010 http://www.dwp.gov.uk/european-year-2010.

Children in Wales
Plant yng Nghymru